

Dydd Mawrth, 22 Chwefror 2022

**Hysbysiad o gyfarfod****Pwyllgor Craffu Oedolion****Dydd Mercher, 2ail Mawrth, 2022 at 10.00 am**  
**Neuadd y Sir, Brynbuga – Cyfarfod o bell****AGENDA****BYDD CYFARFOD CYN I AELODAU'R PWYLLGOR 30 COFNODION CYN I'R  
CYCHWYN Y CYFARFOD**

Eitem ddim	Eitem	Tudalennau
1.	<b>Ymddiheuriadau am absenoldeb</b>	
2.	<b>Datganiadau o Fuddiant</b>	
3.	<b>Fforwm Agored i'r Cyhoedd.</b>  <b>Canllawiau ~ Fforwm Agored Cyhoeddus y Pwyllgor Dethol</b>  Mae ein cyfarfodydd Pwyllgor Dethol yn cael eu ffrydio'n fyw a bydd dolen i'r ffrwd fyw ar gael ar dudalen gyfarfod <a href="#">gwefan</a> Cyngor Sir Fynwy  Os hoffech rannu eich barn ar unrhyw gynigion sy'n cael eu trafod gan Bwyllgorau Dethol, gallwch gyflwyno eich sylwadau <a href="#">drwy ddefnyddio'r ffurflen hon</a>  <ul style="list-style-type: none"><li>• Rhannwch eich barn drwy lanlwytho ffeil fideo neu sain (uchafswm o 4 munud); neu</li><li>• Cyflwynwch sylwadau ysgrifenedig (drwy Microsoft Word, uchafswm o 500 gair)</li></ul> Bydd angen i chi gofrestru ar gyfer <a href="#">cyfrif Fy Sir Fynwy</a> er mwyn cyflwyno'r ymateb neu ddefnyddio eich manylion mewngofnodi os	

ydych wedi cofrestru o'r blaen.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r Cyngor yw 5pm dri diwrnod gwaith clir cyn y cyfarfod. Os bydd y sylwadau a dderbynnir yn fwy na 30 munud, bydd detholiad o'r rhain, yn seiliedig ar thema, yn cael eu rhannu yng nghyfarfod y Pwyllgor Dethol. Bydd yr holl sylwadau a dderbynnir ar gael i gynghorwyr cyn y cyfarfod.

Os hoffech fynychu un o'n cyfarfodydd i siarad dan y Fforwm Agored i'r Cyhoedd, bydd angen i chi roi tri diwrnod o hysbysiad i ni drwy gysylltu â [Scrutiny@monmouthshire.gov.uk](mailto:Scrutiny@monmouthshire.gov.uk). Y cadeirydd sy'n penderfynu faint o amser a roddir i bob aelod o'r cyhoedd i siarad, ond i'n galluogi i roi cyfle i nifer o siaradwyr, gofynnwn nad yw cyfraniadau yn hirach na 3 munud.

Os hoffech awgrymu pynciau i un o'n Pwyllgorau Dethol graffu arnynt yn y dyfodol, gwnewch hynny drwy e-bostio [Scrutiny@monmouthshire.gov.uk](mailto:Scrutiny@monmouthshire.gov.uk)

**4. Gofal Cartref**

To Follow

Trafod yr heriau cyfredol sydd yn cael eu hwynebu o fewn y sector gofal a'r cyd-destun yn Sir Fynwy.

**5. Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai a Digartrefedd**

1 - 174

Craffu'r Stratgaeth Rhaglen Cymorth Tai cyn cyflwyno'r strategaeth i Lywodraeth Cymru ar 31ain Mawrth. Adroddiad yn cynnwys Diweddariad ar Ddigartrefedd.

**6. Monitro'r Gyllideb**

175 - 216

Craffu'r sefyllfa gyllidebol (refeniw a chyfalaf) ar gyfer gwasanaethau sydd o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor ym Mis 9.

**7. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

217 - 222

**8. Blaenraglen Waith y Pwyllgor Dethol Oedolion**

223 - 224

**9. Blaenraglen Waith y Cabinet, y Cyngor a'r ICMD**

225 - 238

**10. Cyfarfod Nesaf**

**Paul Matthews**

---

## Prif Weithredwr

## CYNGOR SIR FYNWY

### MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

L.Brown  
R. Edwards  
M.Groucutt  
R. Harris  
S. Howarth  
M. Powell  
S. Woodhouse  
M.Lane  
C. Bowie  
T. Crowhurst

## Gwybodaeth Gyhoeddus

### **Mynediad i gopiâu papur o agendâu ac adroddiadau**

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

### **Edrych ar y cyfarfod ar-lein**

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i [www.monmouthshire.gov.uk](http://www.monmouthshire.gov.uk) neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

### **Y Gymraeg**

Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Cymunedau Cynaliadwy a Chryf

### Canlyniadau y gweithiwn i'w cyflawni

#### Neb yn cael ei adael ar ôl

- Gall pobl hŷn fyw bywyd da
- Pobl â mynediad i dai addas a fforddiadwy
- Pobl â mynediad a symudedd da

#### Pobl yn hyderus, galluog ac yn cymryd rhan

- Camddefnyddio alcohol a chyffuriau ddim yn effeithio ar fywydau pobl
- Teuluoedd yn cael eu cefnogi
- Pobl yn teimlo'n ddiogel

#### Ein sir yn ffynnu

- Busnes a menter
- Pobl â mynediad i ddysgu ymarferol a hyblyg
- Pobl yn diogelu ac yn cyfoethogi'r amgylchedd

### Ein blaenoriaethau

- Ysgolion
- Diogelu pobl agored i niwed
- Cefnogi busnes a chreu swyddi
- Cynnal gwasanaethau sy'n hygyrch yn lleol

### Ein gwerthoedd

- **Bod yn agored:** anelwn fod yn agored ac onest i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus
- **Tegwch:** anelwn ddarparu dewis teg, cyfleoedd a phrofiadau a dod yn sefydliad a adeiladwyd ar barch un at y llall.
- **Hyblygrwydd:** anelwn fod yn hyblyg yn ein syniadau a'n gweithredoedd i ddod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol.
- **Gwaith tîm:** anelwn gydweithio i rannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd i gyflawni ein nodau.
- **Caredigrwydd** – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.